Ebrill 2017 Rhifyn 255

Fe'n carodd, do yn annwyl iawn,
O carwn ninnau ef

Emyn 490, *Caneuon Ffydd*

**Neges Eifion**

Cloch a bag llaw! Gadewch i mi esbonio. “Beth am fynd ar bererindod i Israel?” meddai rhai o bobl Llanelli, “mi fydd hi’n braf cael bod yno gyda’n gilydd!”. Mi roeddwn i ac Alwen wedi bod yno o’r blaen, yn griw bychan, dethol o saith ond profiad gwahanol fyddai bod ymhlith aelodau a theulu am wythnos gyfan. Cytuno fu’n rhaid ac ym mis Awst, 1999 dyma lanio ym maes awyr Tel Aviv. Fe ddywedodd rhywun unwaith bod yna rhywbeth unigryw mewn bod dramor yng nghwmni Cymry ac o edrych yn ôl ar yr wythnos honno gallaf ddweud fod hynny’n wir. Dyna pryd y seliwyd cyfeillgarwch mewn ffordd arbennig a’r Mr Roberts ffurfiol yna oedd gymaint rhan o feddwl pobl Llanelli tuag at weinidog yn troi yn Eifion. Hon oedd wythnos y siarad a’r rhannu, y dod i adnabod, y bwyta, y chwerthin, y chwysu, yr holi ond yng nghanol y cyfan y gweld, y myfyrio a’r ysbrydoli. Wrth ysgrifennu’r ychydig eiriau yma rwy’n edrych ar gerdyn post sydd ar fy nesg ac ar y cefn gair byr gan bawb o’r grŵp. Efallai bod geiriau Janet, ffrind o flaenores yn crynhoi’r cwbwl: ‘cawsom bererindod, ynghŷd â gwyliau mewn cwmni bendigedig’.

Ond yn ôl at y gloch a’r bag llaw! Ar ôl treulio ychydig ddyddiau yn y Gogledd dyma droi ein golygon tuag at Jerwsalem ac yn arbennig i gerdded y Via Dolorosa; ‘Llwybr y Dioddefaint’. Yn ôl traddodiad dyma’r ffordd y cerddodd yr Iesu tuag at Golgotha gan ddechrau ym Mhorth y Llew a gorffen yn Eglwys y Beddrod Sanctaidd. Y mae’n gwau drwy strydoedd hynafol yr Hen Ddinas, trwy ganol pobl yn byw eu bywydau pob dydd, yng nghanol sŵn ac arogleuon marchnadoedd a bwytai. Dyma’r daith sy’n gallu cyffwrdd â meddwl a chalon ac felly i lawer un yn brofiad emosiynol a byw. Alla i ddim

dweud i mi fod dan deimlad wrth gerdded y daith honno ond fe ddigwyddodd rhywbeth y bore hwnnw yng nghwmni pobl Llanelli. Wrth nesáu at ddrysau'r eglwys, eglwys y dywedir iddi gael ei hadeiladu ar Golgotha'r Efengylau, fe ddechreuodd y clychau ganu; yn amrwd, ar draws ei gilydd, yn fawr ac yn fach. Os ydach chi'n bobl Youtube yna teipiwch *'The Holy Sepulchre Ring Bells – Jerusalem'***.** Mi roedd yna rhywbeth iasol yn perthyn i sŵn y clychau ac yn gyfrwng i greu awyrgylch oedd yn achosi i rhywun ymdeimlo â chysegredigrwydd y lleoliad. Ac yn yr ysbryd yna y bu i ni dreulio ychydig oriau yn edrych, yn profi, yn holi ac yn ceisio ail siapio hen ddarluniau a chreu rhai o'r newydd.

Efallai mai hynny roddodd fod i rhan olaf y bennod: "Dwi wedi gadael fy mag ar ben wal!" meddai un o bererinion Llanelli a gyda'r geiriau yna dyma ddychwelyd i realiti. Diolch am onestrwydd pobl Jerwsalem, 'roedd y bag yn dal yno! Bob tro y byddai'n cofio am y digwyddiad hwnnw, fe fyddai'n gweld y cyfan fel rhyw fath o alegori. Ymhen ychydig wythnosau fe fydd hi'n Basg gyda'i holl sôn am ddioddefaint a marwolaeth, atgyfodiad a bywyd. Rhan o'r 'sôn' hwnnw yw eich ymgais chi a fi i wneud synnwyr o berson a bywyd a dioddefaint yr Iesu, gweithred sy'n cwmpasu credo a chyffes. Dyna mae'r Eglwys wedi ei wneud ar hyd y canrifoedd gan achosi i'r Gristnogaeth gael ei diffinio yn nhermau 'datguddiad' a 'iachawdwriaeth'. Ond mae'r peryglon yn wybyddus i bawb ohonom sef y ffaith y gall cred gael ei gyfyngu i batrwm o athrawiaethau ynghŷd â diffiniadau mewn argyhoeddiad a ffordd o fyw sydd yn aml iawn yn colli golwg ar gyfoeth a dylanwad ysbryd Crist ar ein bywydau.

Yr her i chi a fi wrth geisio byw â'r profiad o Dduw mewn bywyd yw gofalu bod ein 'bagiau' yn dal ar y waliau. Yn byw ein bywydau mewn perthynas, yn ceisio adnabod llwybrau Duw a dathlu y rhodd o fywyd newydd yng Nghrist. Yn unig yn y cyflwr hwnnw y daw ystyr 'atgyfodiad' yn rhywbeth real i bob un ohonom.
Pasg bendithiol i bawb ohonoch!

**Eifion**

# Newyddion

**Geni**

**Llongyfarchiadau**

- i Nia ac Irfon Richards ar enedigaeth Betsan Fflur, wyres i Brian a Mary Thomas.
- i Steffan a Grace McDougall ar enedigaeth Alex Pierce, ŵyr i Awen a Ian McDougall.
- i Mari Llwyd ar enedigaeth ei hŵyr, Cadog Rhun Gruffudd, mab i Mared Llwyd ac Elgan Griffiths a brawd i Leusa Miriam.

**Llongyfarchiadau i ...**

- Dr Brinley Roberts ar gael ei anrhydeddu'n Gymrawd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol mewn seremoni ym Mhrifysgol Abertawe.
- Ellie Richards ar ennill cadair yn Eisteddfod Plascrug am ysgrifennu stori Gymraeg
- Hywel Griffiths a gyfansoddodd y gân *Ti yw fy lloeren* a oedd yn un o'r deg cân ddaeth i gystadleuaeth derfynol Cân i Gymru.

Llongyfarchiadau hefyd i'r rhai enillodd wobrau yn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd fel unigolion ac aelodau o grŵp, barti neu gôr. Cawn gyfle i ddymuno'n dda i'r rhai fydd yn cynrychioli'r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mhenybont ar Ogwr yn y rhifyn nesaf.

Roedd nifer o'n hieuenctid yn aelodau o gwmni Clwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont a ddaeth yn gyntaf trwy Gymru yn y gystadleuaeth adloniant hanner awr. Llongyfarchiadau iddynt.

**Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau gorau at ...**
Buddug Davies ac Enid Jones a fu yn yr ysbyty yn ddiweddar ac at ein holl aelodau sydd yn derbyn gofal ar eu haelwydydd neu mewn cartrefi gofal.

**Cydymdeimlwn yn ddwys ...**
- â'r Parch Ann Jenkins ar farwolaeth ei phriod, Mr. Richard Jenkins. Cydymdeimlwn hefyd â Gareth ei mab. Roedd yr angladd o dan ofal y Parch Eifion Roberts yng Nghapel Llangian ger Pwllheli.

- hefyd â Siân Howys ac Elin Haf Gruffydd Jones a'r teulu ar farwolaeth mam Siân yn Ystradgynlais – mamgu i Gwydion, Gethin a Huw

- â Wendy ac Othniel James ar farwolaeth mam Wendy yng Nghorris – nain i Paul, Matthew, Ryan a Siwan

- â Johanna Breyer a Mark Strong ar farwolaeth tad Johanna yn yr Almaen – tadcu i Hans Meredydd.

- hefyd â Jeremy ac Elin Mabbutt a'r teulu ar farwolaeth modryb Jeremy yn Swydd Caint.

Baner yr Ysgol Sul ym mharêd Gŵyl Dewi

## Newyddion Ebeneser

Anfonwn ein cofion at Mrs. Mattie Shaw sydd wedi dychwelyd adref wedi cyfnod hir yn yr ysbyty ac yng Nghartref Tregerddan. Cofiwn yn gynnes iawn hefyd at ein haelodau sydd yn derbyn gofal yn eu cartrefi ac mewn cartrefi gofal.

Mae'r cennin Pedr sydd yn harddu'r priffyrdd a'r gerddi yn ein hatgoffa fod y gwanwyn wrth y drws gyda'i obaith o ychydig o wres a hindda.

Ar drothwy'r Pasg edrychwn ymlaen at gyhoeddi buddugoliaeth atgyfodiad yr Arglwydd Iesu dros farwolaeth ar y groes. Mae geiriau'r emyn yma o waith y diweddar Barchedig O T Evans yn sail i'n gweddïau a'n myfyrdodau yn ystod yr wythnosau nesaf.

Arglwydd bywyd, tyred atom,
Gobaith holl dylwythau'r llawr,
Yn dy wanwyn gwena arnom,
Rho i'n llwydni degwch gwawr:
Tyred, Arglwydd,
Ti yw'r atgyfodiad mawr.

(Emyn 551, *Caneuon Ffydd*)

Dymunwn fendithion y Pasg i bob un ohonoch.

## Sul y Blodau



Pe baech chi yn un o'r dyrfa y tu allan i Jerwsalem ar y Sul cyn y Pasg, tybed faint fyddech chi'n ddeall am y digwyddiad? Fe fyddech yn gwybod am y Galilead yma oedd wedi gwneud enw iddo'i hun fel rhywun oedd yn iacháu pobl, a rhywun oedd yn herio'r sefydliad crefyddol a rhywun oedd yn dipyn o ffrindiau efo puteiniaid a chasglwyr trethi a phobl annymunol eraill. Ond tybed a fyddech chi'n deall arwyddocâd yr ebol asyn? Roedd digon o bobl yn marchogaeth asynnod i mewn ar hyd y ffordd, ond pwy tybed a benderfynodd ei alw'n frenin? A phwy oedd yn cyntaf i ddweud Hosanna a'r cyntaf i dynnu dail palmwydd a'u gosod fel carped dan draed yr asyn? Heb sylweddoli, nac o reidrwydd heb amgyffred beth oedd yn digwydd, gallai ryw greadur bach fod yn rhan o ddigwyddiad mwy nag y breuddwydiodd amdano. Dyna rybudd diwrnod llawn rhialtwch fel Sul y Blodau, pan fydd popeth yn mynd yn dda daw nifer o bobl at yr achos heb wybod pam. Boed i ni fel dilynwyr Crist ddefnyddio Sul y Blodau i atgoffa ein hunain pwy yw Tywysog Tangnefedd a beth yw arwyddocâd ei deyrnas. Nid dilynwyr di-ddeall ddylem fod ond rhai sydd yn adnabod yr Iesu ac yn ceisio byw yn debyg iddo, yn ostyngedig, yn drugarog ac yn caru cyfiawnder a thangnefedd. Teyrnas i'w byw ydi ei deyrnas  nid teyrnas i fyw ynddi.

**Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd**

Cynhaliwyd gwasanaeth i nodi Dydd Gweddi Chwiorydd y Byd yn festri Bethel Stryd Popty ar ddydd Gwener, Mawrth 3ydd. Roedd yn gyfle i chwiorydd holl eglwysi Cymraeg y dref a Llanbadarn Fawr i ddod at ei gilydd ac i gyfrannu at yr addoliad. Agorwyd y gwasanaeth gyda'r cyfarchiad *Mabuhay!* (croeso neu hir oes i ti!) a chanwyd cân draddodiadol o'r ynysoedd.

Eleni, chwiorydd y Ffilipinas luniodd y gwasanaeth a'r thema oedd *Ydw i'n annheg â thi?* Roedd clawr rhaglen y gwasanaeth yn dangos yr anghydbwysedd sydd yn bodoli rhwng y tyfiant ffrwythlon, traethau hardd a chynaeafau llawn ar un ochr a'r llymder, angen a thlodi ar yr ochr arall. Tyfir reis yno a daw cymdogion at ei gilydd i blannu ac i fedi'r cnwd. Does neb yn derbyn cyflog ond mae'r cynnyrch yn cael ei rannu'n deg rhwng pawb a'r enw a roir ar hyn yw *Dagyaw*. Yn ystod y gwasanaeth rhannwyd bagiau bach o reis i bawb a rhoddwyd cynnyrch yr ynysoedd ar y bwrdd a oedd yn cynnwys siwgr, bananas a ffrwythau eraill, pysgod, ac olew.

Y darlleniad a ddewiswyd ar gyfer y gwasanaeth oedd Mathew 20: 1-16, hanes y gweithwyr yn y winllan ac roedd yn sail i anerchiad Y Parch. Judith Morris. Yn y stori mae Iesu'n defnyddio haelioni'r meistr tir i dalu yr un faint i bob gweithiwr er fod yr oriau gwaith yn amrywio. Yr her i ni heddiw yw cydweithio i ledaenu diwylliant lleol a byd-eang o gyfiawnder economaidd a chymdeithasol, cyfeillgarwch, gofal a chydymdeimlad.

**Cymdeithas y Morfa**

**Dathlu Gŵyl Dewi**

Cynhaliwyd swper Gŵyl Dewi y Gymdeithas yng Ngwesty'r Marine ar nos Lun, Chwefror 27ain. Wrth i ni gyrraedd, cawsom ein croesawu gan Gwen Aeron Down yn canu cadwyn o alawon Cymreig ar y delyn. Darparwyd gwledd ar ein cyfer o gawl a phwdin ac yn dilyn, paned a chacennau cri a bara brith.

Y Parchedig Lyn Léwis Dafis oedd y gŵr gwadd. Yn ei anerchiad diddorol a hwyliog cyfeiriodd at bwysigrwydd y weithred o gasglu o gwmpas y bwrdd i gyd-fwyta gan ei fod yn gyfrwng i rannu cymdeithas â'n gilydd a'n huno fel aelodau o deulu'r eglwys. Cyfeiriodd at weinidogaeth yr Arglwydd Iesu a'i bwyslais ar rannu cymdeithas o gwmpas y bwrdd bwyd gan estyn gwahoddiad agored i ymuno yn y wledd.

Wrth derfynu heriwyd ni gan Lyn i ystyried pwy allen ni ei wahodd i ymuno â ni o gwmpas y bwrdd dros gyfnod y Pasg. Byddai un gwahoddiad yn gwneud gwahaniaeth.

Ar ôl yr anerchiad cafwyd datganiadau hyfryd ar y delyn gan Gwen. I gloi'r noson diolchodd Gwerfyl Pierce Jones ar ran aelodau'r Gymdeithas i Lyn, Gwen a staff Gwesty'r Marine ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson.

**Nos Lun, Mawrth 13eg - Siôn Meredith –** ***Ble mae fy ngwreiddiau?***

Profiad arbennig iawn a braint i ni fel aelodau'r Gymdeithas oedd clywed Siôn Meredith yn rhannu hanes ei fywyd – ei fagwraeth hapus ar aelwyd Gristnogol ym Mangor gan y teulu a fabwysiadodd ef pan yn faban, ac yna yn ddiweddarach, darganfod a dod i adnabod ei deulu genedigol.

Roedd nifer o'r gynulleidfa yn cofio taid a nain Siôn sef y Parch. a Mrs. J.E. Meredith a'r teulu. Bu Mr. Meredith yn Weinidog am gyfnod hir ar Eglwys y Tabernacl, Aberystwyth. Roedd mam Siôn yn enedigol o Gnwch Coch ac amryw yn bresennol yn adnabod ei theulu.

Mae Siôn yn Warden Eglwys Sant Mair ac yn bregethwr lleyg a phan ddarganfu pwy oedd ei deulu genedigol a dod i wybod fod ei dadcu yn offeiriad yn Llundain a nifer o'i gyndeidiau yn offeiriaid yn Iwerddon roedd y cysylltiad yn un arbennig iawn iddo. Mae Siôn yn gwerthfawrogi pob dylanwad a fu arno yn ei fywyd ac y mae ef, Janet, Hannah a Huw wrth eu bodd yn dod i adnabod ei deulu newydd ac yn mwynhau treulio amser gyda'i deulu ym Mangor ac ym Mryste.

Ar ddiwedd y noson diolchodd Dafydd i Siôn am noson arbennig a chyflwynodd gwpan a soser gyda stamp y Tabernacl iddo. Yn y llun gwelir Siôn gyda chyn- aelodau'r Tabernacl a oedd yn bresennol.

**Cyfarfod nesaf: Nos Lun 10 Ebrill am 7 o'r gloch** - Gwaith Cymorth Cristnogol yn Ghana:Y Parchedig Judith Morris.

**Yr Ysgol Sul**

Diolch i bawb am eu cyfraniad at y gwasanaeth teuluol a gynhaliwyd ar drothwy Gŵyl Dewi ar y thema *Gwnewch y pethau bychain* ac i'r ieuenctid am drefnu'r *sleepover*, gan godi £300 at Apêl y Ffilipinas.

Yn ystod y gwasanaeth cafwyd cais ganddynt am arian mân ar gyfer y bocs yn y cyntedd er mwyn gorchuddio tair calon fawr at yr apêl *Corwynt Cariad*.

## Corwynt Cariad . . .

Ble oeddech chi ar 26 Chwefror eleni, am 9.00 o'r gloch yr hwyr? Roeddem ni ar y ffordd i'r Festri, gyda'n sachau cysgu a'n cebls ffôn, llyfrau, gêmau a digon o fwyd i bara tan y bore, i gael ein noddi ar gyfer Apêl Corwynt Cariad.

Penderfynodd ein dosbarth ni (ieuenctid) – ac roedd criw dewr ohonom – Glesni, Mari, Gwen, Elen Madryn, Ynyr, Jac, Rhys, Rhodri a Tomos (fu'n cadw golwg arnom am gyfnod!) yn aros yn y Festri dros nos cyn ein gwasanaeth Gŵyl Dewi trannoeth! Roedd Gwenan, Zoe a Menai gyda ni yn cadw trefn!

Daeth criw o'r blaenoriaid, Eifion a chyfeillion yn eu tro i ddymuno'n dda i ni ar y dechrau yn y gobaith o gael ein gweld dal yn effro ar y bore canlynol yn yr oedfa!

Doedden ni ddim yn segur – o dan arweiniad Glesni bu i ni goginio cacennau bach – a phawb wedi'u bwyta cyn i Glesni druan gael eu blasu!

Cafwyd cystadlu brwd ar y cyfrifiadur – pêl droed oedd yn mynd a'n bryd – gyda Mari a Rhodri yn dangos sut oedd chwarae! Tra roedd hyn yn digwydd, roedd Tomos a Jac yn gwylio ffilm Harry Potter – cyn i bawb arall ymuno er mwyn cael seibiant a rhoi traed i fyny am ychydig!

Un o uchafbwyntiau'r noson oedd y bwyd! Cafwyd llond sosban o fwyd – diolch i Rhys (tad Glesni ac Ynyr) – tebyg i'r hyn a fwyteir yn y Phlipinas ac wedi ei weini ar letys; toasties caws a brechdanau bacwn amser brecwast bore Sul.

Pam oedden ni'n cysgu dros nos yn y Festri? Wel, dyma ddechrau ein hymgyrch i gasglu arian ar gyfer Apêl Cymorth Cristnogol gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru at bobl y Philipinas o dan y teitl 'Corwynt Cariad'.

Er mwyn gwneud rhywbeth gweledol – lluniwyd tair calon ar ein cyfer ac un o dasgau'r noson yn barod at y bore oedd sticio 1c, 2c, 5c,10c, 20c a £1ar y calonnau i'n cadw yn effro!

Llwyddwyd i greu rap i eiriau Jac a'i pherfformio i'w dangos ar y bore Sul . . . dyma'r geiriau ddefnyddiwyd:

Mae hwn yn gorwynt cariad
Corwynt Cymraeg
Siarad iaith y ddraig
Hei bobl y Pilipinas
R'yn ni yma i'ch helpu chi
Gyda'n arian ni.

Hyd yma, casglwyd dros £300 i ddechrau'r ymgyrch. Diolch i chi i gyd am eich caredigrwydd.

Yr ieuenctid, Gwenan, Zoe a Menai

Dyddiadau i'w cofio:

**Bore Sul, Ebrill 2** – *Bwrlwm y Pasg*
Llanllanast yn ystod amser Ysgol Sul a chyfle i oedolion ymuno gyda'r plant yn y gweithgareddau crefft. Dewch â'ch ffrindiau.

**Bore Sul y Pasg** – Ebrill 16
Gwasanaeth teuluol am 10 o'r gloch.
Helfa Wyau a phaned yn dilyn y gwasanaeth

**Pe baech yn hoffi sicrhau lle i'ch plentyn/plant, byddwch garedicd â cysylltu a Zoe Jones mor fuan â phosibl**
**zoejones34@gmail.com 07584411524**

## Gwener y Groglith

.



Mae'n anodd dychmygu pa mor ddychrynllyd oedd man croeshoelio. Roedd yn ddull dienyddio hynod o greulon a hynny yn gwbl fwriadol. Credid fod rhaid i'r cosbau fod yn galed ac yn amlwg. Roedd y farwolaeth yn un a gymerai oriau lawer, weithiau mwy. Felly yr oedd dioddefaint Crist, y diniwed, yn gyhoeddus, yn boenus ac yn anodd ei amgyffred. Ni allai ei ddilynwyr ddeall yr hyn oedd yn digwydd. Er i'r Iesu eu rhybuddio am yr hyn a ddigwyddai iddo, ac er i'r Ysgrythur ragweld y cyfan, ar y dydd Gwener tywyll hwnnw nid oedd ystyr i'r dioddef. Wedi'r digwyddiad y daeth ei ystyr i'r golwg. Weithiau byddai Cristnogion yn gweld y darlun o aberth yr Oen diniwed yn arwydd o faddeuant a ddeuai drwy groes Crist. Dro arall gwelwyd y groes fel arwydd o barodrwydd Duw i fod gyda'i bobl ym mhob trallod a dioddefaint a ddeuai, roedd yr Emaniwel (Duw gyda ni) yn ddi-gwestiwn. Erys y dehongliadau gwahanol o'r groes ond mewn byd o ddioddefaint y mae'r groes yn arwydd clir fod Duw yn agos at ei bobl hyd yn oed mewn cyfnodau tywyll a thrist, nid yw ei gariad yn cael ei orchfygu gan dristwch na chan bechod dyn. Nid yw'n rhyfedd fod Cristnogion wedi rhyfeddu at y groes ar hyd y canrifoedd - dyma arwydd maddeuant ac arwydd o gariad digyfnewid Duw.

## Argyfwng cefn gwlad

Ar y 4ydd o Ebrill yn oedfa'r hwyr byddwn yn croesawu Y Parch Ganon Eileen Davies atom i drafod y newid mawr sy'n digwydd bellach yng nghefn gwlad Cymru. Dyma'r trydydd cyfarfod yn y gyfres yn trafod llais yr Eglwys mewn materion cyfoes. Eileen yw Ymgynghorydd Bywyd Gwledig Esgobaeth Tyddewi ac mae'n ffermio gyda'i phriod yn ardal Llanllwni.

**Croeso i bawb**

## Beth am ymuno â thîm *Perthyn* a thrydar?

Cyn hir fe fydd gwefan **newydd** Capel y Morfa yn ymddangos. Beth am i chi fod yn rhan o'r tîm sy'n cyfrannu ati neu yn un o'r rhai sy'n trydar ar ein rhan.

Mae gan bob un ohonom rhywbeth i'w gynnig - boed yn stori, erthygl, llun neu gymorth technegol.

Yn ogystal mi fyddai'n braf cael tîm arall i wneud *Perthyn*.

Peidiwch â meddwl am funud ei fod yn waith diflas - mae'n gyfle i ddod i adnabod pobl yn well a deall mwy am weithgareddau'r eglwys a'r Morlan.

Mae timau *Perthyn* yn hapus i drafod neu i ateb unrhyw gwestiwn.

# Gareth Owen

## Canolfan y Morlan

**Chwefror 22—Ebrill 14**
**February 22 - April 14**

**Rhaghysbysiad**
**'Rhyw 'LUN' o Hunangofiant'**
**gan Gareth Owen**
**yn eich siop lyfrau**
**Mai 2017**

EnglUniau' yw teitl prosiect diweddaraf Gareth Owen. Mae yna gyfle i weld ei arddangosfa 'EnglUniau' yng Nghanolfan y Morlan tan ganol Ebrill. Bydd wedyn yn symud i Galeri Caernarfon gyda'r agoriad swyddogol yn ar Fai 5ed yn cydredeg â lansiad ei lyfr – *Rhyw LUN o Hunangofiant* sydd yn cael ei gyhoeddi gan Gwasg Carreg Gwalch.



Cafodd llawer o'i ddelweddau yn y gorffennol eu symbylu gan farddoniaeth pobol eraill ond dyma'r tro cyntaf iddo ddefnyddio ei farddoniaeth ei hun. Mae llawer iawn o'i englynion yn weledol iawn eu natur ac yn addas iawn i'w cyfuno â delweddau. Mae Gareth yn sylweddoli hefyd, mae gan y gymdeithas ddiwylliannol Gymreig (Cymdeithas y 'Pethe') y caiff yr ymateb gorau i'w waith ac roedd yn ymwybodol iawn o'r gynulleidfa hon wrth fyfyrio ar y prosiect 'EnglUniau'

Mae'r delweddu amhersonol gyda chymorth cyfrifiadur yn hollol fwriadol i sicrhau fod y gwylwyr yn cael eu harwain yn syth at y syniadau yn hytrach nac edmygu rhyw dechneg neu arddull arbennig. Mae'n briodol hefyd gan mai cyfres o englynion ar gefndir gweledol sydd yma mai *collage* papur yw'r cyfrwng. Arweiniodd hyn at fathu y gair "EnglUniau" fel teitl i'r prosiect.

Mae'r broses o greu yr "EnglUniau"yn amrywio - weithiau yr englyn sydd yn dod gyntaf, dro arall y ddelwedd. Gellir hefyd eu catagareiddio i wahanol adrannau megis englynion coffa, gwleidyddol, crefyddol, celfyddydol a chysyniadol.

**Gareth Owen**

Cofiwch bod Capel y Morfa yn trydar @capelymorfa

## Priodas un rhyw

Trafod priodas un rhyw oedd bwriad yr oedfa drafod nos Sul, 26 Chwefror, ond gwneud hynny o fewn ffrâm cymharol eang. Bu cryn drafod ar agweddau tuag at y Beibl. Roedd rhai o'r farn y gellid hepgor darnau o'r Ysgrythur nad oedd yn gydnaws â'n hegwyddorion neu ein teimladau ni heddiw. Yn ôl y farn honno prin fod angen ystyried rhai darnau o'r Ysgrythur ond roedd yn amlwg na ellid sylfaenu safbwynt ar gred o'r fath. Roedd yn rhaid felly ystyried sut y mae darllen yr ysgrythurau yn enwedig y darnau sydd yn anodd i ni. Bu peth trafod ar y dull "llythrennol", dull lle yr honnir fod rhywun yn derbyn y Beibl fel y mae. Ond petaem yn gwneud hynny byddem yn gwahardd torri gwallt ar ochr y pen i ddynion, gwahardd iddynt drin eu barf ac ni fyddai neb yn gwisgo dilledyn sydd yn cynnwys mwy nag un brethyn. Nid oes y fath beth a llythrenoldeb.




Felly rhaid dechrau trwy ddeall yr Ysgrythur. Er mwyn deall rhaid ystyried pwy ysgrifennodd y llythyr /llyfr / proffwydoliaeth, i bwy y bwriadwyd ef, pa bryd yr ysgrifennwyd ef ac i ba bwrpas. Rhaid deall be fyddai ystyr yr hyn y cyfeirir ato yn y cyfnod hwnnw ac yn y diwylliant hwnnw ac i'r bobl hynny. Ond unwaith yr ydym yn ei ddeall yn ei gyfnod, rhaid i ni wedyn ei ddehongli yn ein sefyllfa ni ac yn ein diwylliant ni. Dyma yw'r gwaith caled! Y mae'n demtasiwn gref i lithro nôl i ddarlleniad llythrennol o'r geiriau gan ei bod hi'n haws ac yn fwy eglur i'w ddadlau. Ond gall arwain at gam gwag, er enghraifft Paul yn dweud wrth ferched Corinth am wisgo pen wisg. Felly a ddylai pob merch wisgo het i'r capel? Ond arwydd o barch oedd penwisg ar y pryd, ac arwydd o buteindra oedd peidio gwisgo penwisg, felly go brin ei fod yn berthnasol yn Aberystwyth heddiw, lle nad yw het yn cario'r fath arwyddocâd.

Felly i droi at briodasau un rhyw. Mae darlleniad llythrennol o rai darnau o'r Ysgrythur yn awgrymu na ellir bod o blaid priodas un rhyw, neu hyd yn oed berthynas un rhyw. Ond gellid dweud mai camarweiniol fyddai bodloni ar hynny. Y darnau perthnasol yn yr Hen Destament yw Lefiticus 18 a 20. Rheolau yng nghylch ymddygiad rhywiol a chymdeithasol sydd yn y ddwy bennod, rheolau oedd wedi eu llunio yn fwriadol er mwyn i'r Israeliaid ymgadw rhag ffordd y Canaaneiaid o fyw a gweithio. Roedd y bobl yn symud i fyw i ganol diwylliant gwahanol, un oedd â phwyslais ar ffrwythlondeb, roedd ymddygiad rhywiol o bob math yn digwydd yn niwylliant y wlad ac yn y cyd-destun hwnnw y daw'r gorchmynion. Y mae'r gorchmynion yma yn dod ynghyd â gorchymyn i beidio torri gwallt ar ochr y pen a pheidio gwisgo gwisg o ddau frethyn. Y cwestiwn sylfaenol felly yw a ellir galw rhain yn rheolau perthnasol heddiw, yn enwedig gan mai'r gosb am droseddau yn erbyn y rheolau hyn yw marwolaeth. Prin felly fod dehongliad llythrennol o Lefitcus yn un y gellir ei gyfianwhau.

Mae'r darnau yn Rhufeiniaid a Corinthiaid ar un ystyr yn debyg. Ar yr olwg gyntaf y maent yn condemnio gweithredoedd rhywiol rhwng dau o'r un rhyw. Ond llythyrau yw'r rhain at eglwysi bychain newydd oedd yng nghanol cymdeithas fyddai yn codi gwallt pen pobl heddiw hyd yn oed. Disgrifio arferiad o buteinio "hoyw" a phobl yn byw fel y mynnant y mae Paul nid sôn am berthynas sefydlog rhwng dau berson hoyw. Cymdeithas "heb ddeall heb deyrngarwch, heb serch, heb dosturi" yw'r gymdeithas y mae'n ei disgrifio. Ond prin fod hynny yn adlewyrchu'r berthynas hoyw sefydlog a chariadus a all arwain at briodas. Gellir dadlau fod y cyfeiriadau Ysgrythurol felly yn trafod amgylchiadau penodol ac agwedd ddihid a thrachwantus at ryw nid trafod perthynas a chariad rhwng pobl hoyw.

Ni chafwyd llawer iawn o amser i drafod priodas yn yr oedfa dim ond i nodi fod o leia dau bwrpas i briodas yn ol dau hanes y creu, y cyntaf er mwyn i bobl "ffrwytho ac amlhau a llenwi'r ddaear" sef er mwyn cenhedlu plant (Genesis 1:28), ond yn ail er mwyn i ddyn gael ymgeledd cymwys (Genesis 2:18). Tynnwyd sylw yn y trafod - os yw'r ddau nôd yn anghenraid i briodas nid yn unig ni all pobl hoyw briodi ond nid yw'n bosib i gyplau hŷn na allent genhedlu plant briodi ychwaith. Y mae'r drisgrifadau wedyn o briodas a geir yn yr Ysgrythur yn trafod dyn yn gadael ei dad a'i fam a glynu wrth ei wraig, ac y mae gŵr a gwraig yn dod yn un cnawd. Disgrifiadau o briodas rhwng cyplau o'r ddau ryw yw rhain. Ond tybed a ydynt yn rhwystr neu yn waharddiad rhag priodas un rhyw. Os mai 'ymgeledd cymwys' yw'r bwriad ac mai 'deall, teyrngarwch serch a thosturi' yw rhai o'r anghenion heb sôn am gariad a sefydlogrwydd yna prin y gellid gwahardd na rhwystro priodas un rhyw mwy nag y gellid gwahardd priodas rhwng dau na all genhedlu plant. Efallai fod y gwrthwynebiad yn codi o arferiad ac o'r cyndynrwydd i newid yn hytrach na dim arall. Ychwanegwch wedyn ein bod yn rhan o enwad sydd yn gyndyn o roi rhyddid i gynulleidfa unigol i benderfynu beth sydd yn addas iddynt ac y mae rhwystredigaeth yn amlwg.

**John Roberts**

Golygyddion y mis yma yw Sarah a John. Gwerfyl a Menai fydd golygyddion rhifyn mis Mai - y deunydd i law erbyn 21 o Ebrill, os gwelwch yn dda, i **menaillwyd@googlemail.com**

## Cymanfa Ganu Gogledd Ceredigion

**Dydd Sul, 14 Mai  yn Bethel Tal-y-bont**

| | |
|---|---|
| Bore am 10 | Gwasanaeth Plant ac Ieuenctid |
| Hwyr am 5.30 | Cymanfa Ganu<br>Arweinydd: Mr. Alwyn Evans<br>Organydd: Mrs. Falyri Jenkins |

Cynhelir yr ymarferion ar gyfer y Gymanfa ar nosweithiau Mercher am 7 o'r gloch yn y mannau canlynol:

| | |
|---|---|
| 5 Ebrill | Morfa |
| 12 Ebrill | Capel y Garn |
| 26 Ebrill | Bethel Aberystwyth |
| 3 Mai | Seion Aberystwyth am 6.30. o'r gloch |
| 10 Mai | Bethel Tal-y-bont |

## Cyfarfod Cenhadol Chwiorydd Gogledd Ceredigion

**Dydd Sadwrn, Ebrill 1af am 2.30.yng Nghapel y Garn**

Anerchir gan Catrin Hughes, Llanafan ar ei hymweliad â Lesotho.

Bydd casgliad tuag at waith elusennol yn Lesotho

Dolen Cymru
•Wales Lesotho Link•

## Sul y Pasg



Cafodd un diwinydd ei gondemnio am ddweud nad triciau efo esgyrn oedd yr atgyfodiad ond y gwir yw gall Cristnogion gael eu baglu'n rhwydd gan ddadleuon di-fudd am yr hyn a ddigwyddodd ar y bore rhyfedd hwnnw pan gafwyd y bedd yn wag. Nid oes modd deall yn union beth ddigwyddodd ar ddydd atgyfodiad Crist. Y mae'r hanesion yn yr efengylau yn dal yn ddirgelwch - mae rhai hanesion yn cofnodi sut yr oedd yn ymddangos ac yn diflannu o olwg pobl tra bod hanesion eraill yn sôn amdano yn bwyta ac yn gwahodd Tomos i gyffwrdd ei glwyfau. Mae rhai adroddiadau yn dweud nad oedd pobl yn ei adnabod tra bod eraill yn ei adnabod yn rhwydd. Heddiw nid y triciau gydag esgyrn sydd yn cynnig cysur ond yn hytrach y ffydd a'r sicrwydd fod Ysbryd Crist gyda'i bobl. Mae'r Crist atgyfodedig yn cynnig cysur, nerth a llawenydd i'w bobl a dyna pam fod dydd atgyfodiad gyda'i holl ddirgelwch yn ddydd dathlu.

# DYDDIADUR EBRILL 2017
# Capel y Morfa ac Ebeneser

## GWASANAETHAU'R SUL

### 10.00 a 6.00 yn y Morfa
### 2.15pm yn Ebeneser

2 Bugail (Cymun yn y bore) ac oedfa arbennig yng nghwmni Y Parchedig Eileen Davies yn y nos i drafod 'Argyfwng Cefn Gwlad a Rôl yr Eglwys'
9 Parchedig Eric Jones
16 Bugail
23 Parchedig Dafydd Andrew Jones
30 Bugail

**Nos Iau Cablyd** - gwasanaeth cymun yn y Morfa am 7.00 - Y Parch Ian Girling yn pregethu - cyn ficer Eglwys y Drindod.

**Bore Gwener y Groglith** - Bethel am 10.30. Yng ngofal y Parchedig Peter Thomas. Gorymdaith y Pasg i ddilyn a gweithred o addoliad yn Stryd y Popty.

**Clwb Hwyl Hwyr** - bob nos Lun: 3:45-5, Festri'r Morfa (yn ystod tymor ysgol)

**Cylch Gweddi a Choffi** - bore Mawrth am 10.30 yn Morlan

**Cyfarfod wythnosol** – nos Iau am 7.00pm yn y Morlan

**Cinio Bara Chaws**
3 Ebrill – Eglwys Dewi Sant, Bath Street

**Y Gymdeithas**
Nos Lun, 10 Ebrill am 7.00 gloch – Y Parch Judith Morris

## SWYDDOGAETHAU EBRILL 2017

**Blaenor y Mis** R Arwel Jones

**Porthorion** Deian Creunant, Alun Morris
Rhys Jones, Mary Jones Morris

**Blodau'r Cysegr – Y Morfa**
2 Catrin Griffiths
9 Hefin Jones
16 Sarah a Gwen
23 Mair Griffiths
30 Hefina Wright a Siân Richards

**Blodau Ebeneser**
2 Susan Hughes
9 Ann Ffrancon
16 Siân Powell
23 Siân Powell
30 Llinos Hughes

**Cynorthwywyr Llestri Cymun**
2 (bore) Ann Hughes, Margaret Stephens, Mair Hughes, Mary James

**Cynorthwywyr Ariannol**
2 Beti Roberts a Blodwen Williams
9 Alun a Mary Jones Morris
16 Brian Thomas a Dafydd Morgan Evans
23 Meirion Morgan a Menai Lloyd Williams
30 Menna Evans a Hefin Jones

**Tregerddan**
30 Dan ofal Eleri Davies